

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please
let us know if your language choice is Welsh.*



Annwyl Cyngorydd,

CYNGOR

Cynhelir Cyfarfod Cyngor yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd Yr Angel, Penybont Ar Ogwr, CF31 4WB ar **Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2019** am **15:00**.

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 16
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 23/10/2019
4. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:
 - (i) Maer (neu berson sy'n llywyddu)
 - (ii) Aelodau'r Cabinet
 - (iii) Prif Weithredwr
5. Derbyn Adroddiad yr Arweinydd
6. 2020-21 Treth Gyngor 17 - 20
7. Adolygiad o'r Cyfansoddiad a Diwygiadau i'r Cyfansoddiad 21 - 28
8. I dderbyn y Cwestiwn Canlynol o Cyngorydd A Hussain I'r Aelod Cabinet Cymunedau

Ym Mwrdeistref y Sir mae yna lawer o fylchau ar lwybrau beiciau a llwybrau cerdded. Sut mae'r Aelod Cabinet yn mynd i'r afael â hyn i annog Teithio Gweithredol?

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwidi testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

9. Materion Brys

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant

K Watson

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol

Dosbarthiad:

Cynghowrwy

S Aspey
SE Baldwin
TH Beedle
JPD Blundell
NA Burnett
MC Clarke
N Clarke
RJ Collins
HJ David
P Davies
PA Davies
SK Dendy
DK Edwards
J Gebbie
T Giffard
RM Granville
CA Green
DG Howells

Cynghorwyr

A Hussain
RM James
B Jones
M Jones
MJ Kearn
DRW Lewis
JE Lewis
JR McCarthy
DG Owen
D Patel
RL Penhale-Thomas
AA Pucella
JC Radcliffe
KL Rowlands
B Sedgebeer
RMI Shaw
CE Smith
SG Smith

Cynghorwyr

JC Spanswick
RME Stirman
G Thomas
T Thomas
JH Tildesley MBE
E Venables
SR Vidal
MC Voisey
LM Walters
KJ Watts
CA Webster
DBF White
PJ White
A Williams
AJ Williams
HM Williams
JE Williams
RE Young

CYNGOR - DYDD MERCHER, 23 HYDREF 2019

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWIYD YN SIAMBR Y CYNGOR,
SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD
MERCHER, 23 HYDREF 2019, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd SE Baldwin – Cadeirydd

TH Beedle	JPD Blundell	NA Burnett	MC Clarke
N Clarke	RJ Collins	HJ David	P Davies
PA Davies	DK Edwards	J Gebbie	T Giffard
RM Granville	CA Green	DG Howells	A Hussain
RM James	B Jones	M Jones	MJ Kearn
DRW Lewis	JE Lewis	JR McCarthy	DG Owen
D Patel	RL Penhale-Thomas	AA Pucella	JC Radcliffe
KL Rowlands	B Sedgebeer	RMI Shaw	CE Smith
SG Smith	JC Spanswick	RME Stirman	T Thomas
JH Tildesley MBE	SR Vidal	MC Voisey	LM Walters
KJ Watts	CA Webster	DBF White	PJ White
A Williams	HM Williams	RE Young	

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey, G Thomas, E Venables, AJ Williams a/ac JE Williams

Swyddogion:

Susan Cooper	Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Gill Lewis	Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro
Jonathan Parsons	Rheolwr Grŵp Datblygu
Andrew Rees	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraataidd - Pwyllgorau
Mark Shephard	Prif Weithredwr
Kevin Stephens	Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democataidd
Kelly Watson	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro

358. DATGAN BUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd RE Young fuddiant personol yn eitem 6 ar yr agenda - cynnig am Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-ranbarth Caerdydd, am ei fod yn cael ei enwebu i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Cynllunio Strategol Dros Dro.

Datganodd Kelly Watson, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio a Swyddog Monitro a Gill Lewis, Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro fuddiant yn eitem 8 ar yr agenda - Newidiadau Arfaethedig i Strwythur Rheoli'r JNC gan fod y cynigion yn effeithio ar eu swyddi. Gadawodd y ddau swyddog y cyfarfod tra'r oedd yr eitem yn cael ei hystyried.

359. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 18 Medi 2019 yn wir ac yn gywir yn amodol ar gynnwys enw'r Cynghorydd JE William yn y rhestr o ymddiheuriadau am absenoldeb.

360. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Rhoddodd y Maer wybod i'r Cyngor am y digwyddiadau y bu'n bresennol ynddynt ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Roedd hynny'n cynnwys ymweld â'r Cylch Chwarae Standing to Grow yn Sefydliad Glowyr Nantffyllon, Maesteg, a oedd wedi agor ystafell newydd yn ddiweddar. Roedd yr ystafell wedi'i hariannu drwy'r Grant Cyllid Cyfalaf Cynnig Gofal Plant, a'i ddyrannu gan y tîm gofal plant ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bu'n bresennol yn y noson wobrwyo flynyddol yn Ysgol Gyfun Pencoed, yn llongyfarch y disgyblion am eu llwyddiant a'r staff am eu hymroddiad a'u hymrwymiad.

Cyhoeddodd y Maer y bu'n anrhydedd iddo gefnogi'r Apêl Pabi Coch Flynyddol a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Cwm Garw, lle cafwyd cerddoriaeth gan Fand Adran Tywysog Cymru a chyfraniadau gan amryw o gorau lleol. Hysbysodd y Maer y Cyngor y byddai'n ymweld ag enillwyr y Gwobrau Busnes Lleol, a gynhelir ym mis Medi.

Y Dirprwy Arweinydd

Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd fod siop aildefnyddio gyntaf erioed y Fwrdeistref Sirol wedi agor yng nghanolfan ailgylchu gymunedol Maesteg. Bydd yn cael ei rhedeg gan fenter gymdeithasol Wastesavers, mewn partneriaeth â'r Cyngor a Kier. Mae'r siop wedi cael ei henwi yn 'Y Seidin' i gydnabod treftadaeth mwyngloddio Maesteg. Gellir cyfrannu unrhyw eitemau o'r cartref sydd mewn cyflwr da i'w defnyddio eto, a bydd yr holl elw yn cael ei hailfuddsoddi mewn rhaglenni cymdeithasol.

Mae trefniadau wedi'u gwneud i Aelodau dderbyn hyfforddiant ar Reoli Galwadau Ffôn Camdriniol ac Ymosodol, Rheoli Gwrthdaro ac Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch Personol ar 31 Hydref 2019. Bydd y sesiwn gyntaf yn dechrau am 9.30am, a'r sesiwn honno'n cael ei hailadrodd am 1.30pm. Mae rhai lleoedd yn dal ar gael yn y ddwy sesiwn, a dylai Aelodau sydd am ddod i un ohonynt gysylltu ag Andrew Rees, Rheolwr Gwasanaethau Democraidd.

Aelod Cabinet Cymunedau

Rhoddodd yr Aelod Cabinet wybod i'r Aelodau am benderfyniad diweddar y Cabinet, a wnaed yn groes iawn i'r graen, i symud tuag at sefyllfa adennill costau llawn yn achos caeau chwarae a phafiliynau chwaraeon. Roedd hyn yn amlygu sefyllfa'r Cyngor, ac yn datgelu'r graddau y mae'r awdurdod lleol wedi bod yn cymorthdal am y cyfleusterau hynny, a hynny hyd at 80% mewn rhai achosion. Anogodd fwy o sefydliadau, grwpiau chwaraeon a chynghorau tref a chymuned i gysylltu â chwrdd â'r Cyngor i drafod ysgwyddo cynnal cyfleusterau lleol poblogaidd drwy'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Dywedodd fod Clwb Rygbi Bryncethin yn enghraifft berffaith o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy'r broses hon, ac yn dangos sut y gall clwb neu sefydliad sicrhau cyllid i ddatblygu cyfleusterau newydd. Hyd nes y ceir sefyllfa lle bydd llywodraeth leol yn cael ei hariannu'n ddigonol, bydd angen i'r Cyngor barhau i weithio mewn partneriaeth agosach a defnyddio prosesau fel trosglwyddo asedau cymunedol i sicrhau bod cyfleusterau fel toiledau, pafiliynau, caeau, llecynnau a meysydd chwarae a mwy yn parhau i fod i fod ar gael i'w defnyddio. Roedd yn gobeithio y byddai'r Aelodau yn cyfleu'r neges hon yn eu wardiau eu hunain, ac yn annog pobl leol i ystyried sut y gallent hwythau hefyd gyfrannu at gadw cyfleusterau poblogaidd yng nghalon y gymuned.

Roedd hi'n bleser iddo gael cadarnhau y byddai cyn-aelodau o'r fyddin a fyddai'n ymgeisio am swydd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn sicr o gael cyfweiliad yn ôl gweithdrefnau newydd sy'n cael eu cyflwyno i'w helpu i ymaddasu i fywyd dinesydd. Bwriedir i'r penderfyniad helpu cyn-filwyr, personél sy'n gwasanaethu yn

y lluoedd a'u teuluoedd i oresgyn rhwystrau wrth ganfod swydd ddinesig, a lleihau'r risg o broblemau iechyd a lles. Byddwn yn dal i ddefnyddio gweithdrefnau dethol i sicrhau bod yr ymgeisydd gorau ar gyfer y rôl yn cael ei benodi, a bydd cyn-filwyr yn cael cyfle i arddangos sgiliau trosglwyddadwy fel arweinyddiaeth, rheolaeth, datrys problemau a mwy, gan ennill profiad gwerthfawr o gyfweiliadau ar yr un pryd. Dywedodd mai dyma oedd y datblygiad diweddaraf yn rhan o Gyfamod Cymunedol Lluoedd Arfog yr awdurdod, sy'n dod â sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus, busnesau lleol, elusennau a'r sector gwirfoddol ynghyd i gynnig cymorth, cefnogaeth a chynghor priodol.

Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi lansio ymgyrch newydd y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei chefnogi. O dan y teitl 'Rhagfarn ar Sail Oedran Bob Dydd', yr oedd yn ceisio codi ymwybyddiaeth ynghylch graddfa ac effaith problemau a wynebwr gan bobl hŷn bob dydd. Anelai i herio rhagfarn a gwahaniaethu ar sail oedran, a grymuso pobl hŷn i wneud hynny hefyd drwy annog preswylwyr i adrodd am eu profiadau fel bo modd i'r Comisiynydd eu herio. Dywedodd fod pecyn cefnogi ar gael o wefan Pobl Hŷn Cymru, ac y gallai'r aelodau fod eisiau rhoi gwybod i'w hetholwyr a'u hannog i gefnogi'r achos hynod deilwng hwn.

Cyhoeddodd hefyd fod y Gemau OlympAGE yn cael eu cynnal ddydd Mercher 5 Rhagfyr yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr rhwng 9:30am ac 11am. Pwrpas y Gemau yw datblygu cymunedau sy'n gyfeillgar ag oed a chydabod manteision annog pobl hŷn i fod yn fwy gweithgar o safbwynt iechyd a lles, ac roedd yn sicr y byddai'n llwyddiant mawr unwaith eto.

Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol fod Cydwasanaeth Rheoleiddio Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg wedi ennill gwobrau Aur, Arian ac Efydd drwy fenter Paw-Prints 2019 yr RSPCA. Cafodd y gwasanaeth ei gydnabod mewn tri chategori gwahanol, gan ennill Aur am Gŵn Strae, Arian am Drwyddedu Gweithgarwch Anifeiliaid ac Efydd am Gŵn Cynel. Pwrpas y gwobrau yw cydnabod cyflawniadau mewn gwasanaethau cŵn strae, cynlluniau wrth gefn, polisi tai, trwyddedu gweithgarwch anifeiliaid a lles cŵn cynel. Yn ogystal â hynny, llongyfarchodd Hope Rescue ym Mhontyclun, a enillodd wobwr aur am y modd y maent yn gofalu am gŵn cynel ar ran cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Cyhoeddodd hefyd ei bod wedi derbyn cadarnhad y bydd nifer o glybiau lleol yn elwa ar fuddsoddiad 'Lle i Chwaraeon' Llywodraeth Cymru. Mae Clwb Athletau Pen-y-bont ar Ogwr wedi ennill £50,000 a fydd, ynghyd â chyfraniadau gan y Cyngor, y clwb a Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, yn cael ei ddefnyddio i ailosod y trac rhedeg 300m yng Nghaeau Pontnewydd.

Ar wahân i hynny, dyfarnwyd £25,000 i Glwb Rygbi a Phêl Droed Nantyllyn, £10,000 i Glwb Saethu Targed Tondu a bron i £10,000 i Glwb Athletau Bechgyn a Merched Pen-coed. Derbyniwyd bron i £5,000 gan Grŵp Dawns Funk Force, a £4,000 gan Glwb Bowlio Bryn Cynffig a'r Pîl. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i foderneiddio a gwarchod cyfleusterau chwaraeon, a chreu cyfleusterau chwaraeon newydd.

Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio bod derbyniadau ysgol Uwchradd ar gyfer mis Medi 2020 yn agor yn hwyrach yr wythnos hon, a gofynnodd i'r Aelodau helpu i annog rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr i ymgeisio am leoedd ar-lein drwy ddefnyddio'r

gwasanaeth Fy Nghyfrif. Dywedodd y byddai rhieni a gofalwyr disgyblion ysgol gynradd sydd ym mlwyddyn chwech ar hyn o bryd yn gallu cyflwyno cais hyd at 24 Ionawr. Byddant wedyn yn cael gwybod y canlyniad ar 2 Mawrth. Dywedodd y gellir cael hyd i fanylion pellach ar y dudalen derbyniadau ysgol ar wefan y Cyngor.

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio fod gwaith yn mynd rhagddo i drawsnewid hen swyddfa'r orsaf-feistr ar Reilffordd Porthcawl i greu eiddo masnachol modern cwbl newydd. Roedd disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau'n fuan yn 2020.

Llongyfarchodd Owain Lloyd, disgybl o Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd a oedd wedi ennill 5 gradd A Safon Uwch.

Y Prif Weithredwr

Rhoddodd y Prif Weithredwr y newyddion diweddaraf i'r Cyngor am Brexit. Dywedodd fod y cyfryngau lleol wedi cael eu briffio, ac mai canlyniad hynny oedd bod cynlluniau'r Cyngor wedi cael eu hadrodd yn y Gazette. Dywedodd wrth y Cyngor fod Dyfais Olrhain Risg ar waith, a bod deialog rheolaidd yn cael ei gynnal rhwng Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe a'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr. Anogodd yr Aelodau i dynnu sylw etholwyr at Gynllun Adsefydlu'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn galluogi dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd i barhau i fyw yn y DU.

361. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod Canolfan Chwaraeon Dŵr Rest Bay wedi agor yn ddiweddar. Mae'r Ganolfan yn rhan o fenter Croeso Cymru i greu 13 o gyrchfannau newydd i ymwelwyr ledled Cymru. Bydd y cyfleuster yn darparu cyfleusterau gwell i ymwelwyr, yn ogystal â chanolfan bwrpasol i Ysgol Syrffio Porthcawl, Llogi Beiciau Rest Bay, Clwb Syrffio Arfordir Cymru ac Academi'r Traeth. Bydd caffi/bistro hefyd yn cael ei agor, a bydd y cyfleuster hefyd yn cynnwys ciosg lluniaeth, toiledau newydd, cawodydd allanol, man storio beiciau pob tywydd, cadeiriau olwyn ar gyfer y traeth a mwy. Hysbysodd y Cyngor y byddai'r ganolfan yn ychwanegiad newydd gwych i Borthcawl, ac o fudd i breswylwyr ac ymwelwyr y naill a'r llall.

Cyhoeddodd yr Arweinydd hefyd fod ysgol fusnes dros dro yn dychwelyd i'r Fwrdeistref Sirol yr wythnos nesaf. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal rhwng 10am a 3pm yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr ddydd Llun 28 Hydref hyd ddydd Gwener 1 Tachwedd. Mae'n anelu i ddarparu'r wybodaeth a'r offer y mae ar bobl eu hangen i gychwyn eu busnes eu hunain. Gall cyfranogwyr archebu lle drwy ymweld â'r ysgol fusnes dros dro ar wefan Pen-y-bont ar Ogwr.

Cyhoeddodd yr Arweinydd y byddai gofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael ym Metws ac ym Mro Ogwr yn fuan. Pwrpas y ddarpariaeth honno oedd cefnogi'r disgyblion fyddai'n cael eu derbyn i Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd ym Metws, a gwblhawyd yn ddiweddar. Bydd dau gyfleuster newydd yn cael eu hadeiladu yn Stad Ddiwydiannol Isfryn ym Melin Ifan Ddu, ac ar safle Clwb Bechgyn a Merched Betws. Cam cyntaf menter i ddatblygu mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw'r cynlluniau, ac yn y camau dilynol byddwn yn canolbwyntio ar gyfleusterau newydd ym Mhorthcawl ac yn ardal tref Pen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn darparu £2.6 miliwn ar gyfer y gwaith dylunio a datblygu er mwyn sicrhau y bydd plant lleol yn elwa ar amgylcheddau addysgol modern o'r radd flaenaf.

362. CYNIGION AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL (CDS) AR GYFER PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Gofynnodd Rheolwr y Grŵp Datblygu am awdurdod i gychwyn paratoi Cynllun Datblygu Strategol (CDS) yn ffurfiol ar gyfer Prifddinas-ranbarth Caerdydd, gyda Chyngor Bro Morgannwg yn Awdurdod Cyfrifol; i nodi'r ardal cynllunio strategol ar ffurf 10 ardal awdurdod cynllunio oddi mewn i Brifddinas-ranbarth Caerdydd, er mwyn i swyddogion perthnasol ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i ddrafftio Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Strategol er mwyn creu trefniadau llywodraethu ar gyfer y CDS a'r Panel Cynllunio Strategol (PCS). i gytuno bod y gost o baratoi'r CDS yn cael ei rhannu ar draws y 10 Awdurdod yn ôl eu cyfran o'r costau ar sail trefniadau pleidleisio'r PCS, a gaiff eu hadolygu'n flynyddol, ac i dalu costau cychwynol sy'n debygol o godi yn y flwyddyn ariannol hon 2019/20, ac enwebu Aelod etholedig i eistedd ar y Panel Cynllunio Strategol.

Adroddodd fod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018, wedi awdurdodi'r swyddogion i fynd rhagdynt i baratoi'r CDS ar y cyd â'r 10 Awdurdod Cynllunio Lleol ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd. Dywedodd nad yw'r canllawiau na'r rheoliadau ar gyfer y CDS wedi'u llunio eto, a bod y rhanbarth mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y modd y gellir rheoli'r broses a sicrhau CDS llwyddiannus. Nodwyd ffordd ymlaen a ffafir yn gysylltiedig â Ffin yr Ardal Cynllunio Strategol; Llywodraethu a Chwmpas, Cynnwys a Chyfnod y Cynllun.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Datblygu fod angen cydgynllunio mewn modd strategol ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd, ac mai'r ffordd orau o wneud hynny oedd drwy greu Cynllun Datblygu Strategol statudol ar gyfer Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Dywedodd fod Cytundeb y Fargen Ddinesig yn creu ymrwymiad i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth, ac i gydweithio ar faterion trafndiaeth strategol a chynllunio strategol, sy'n adlewyrchu'r argymhelliad yn adroddiad y Comisiwn Twf. Mae CDS statudol yn rhoi sicrwydd i ddatblygwyr, buddsoddwyr a chymunedau fod penderfyniadau strategol ynghylch darparu tai, trafndiaeth, cyflogaeth a seilwaith yn cael eu gwneud ar lefel ranbarthol briodol, gan sicrhau ar yr un pryd y gellir parhau i wneud penderfyniadau allweddol ynghylch cynigion cynllunio yn lleol drwy ddyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol a pholisïau, ac wedi hynny mewn penderfyniadau rheoli datblygu. Nododd mai ond Awdurdod Cyfrifol a nodwyd a oedd yn gallu cyflwyno cynnig i Lywodraeth Cymru i symud ymlaen â CDS ar gyfer Prifddinas-ranbarth Caerdydd, ar ôl i'r holl Gynghorau roi cymeradwyaeth ffurfiol. Yn dilyn hyn, gall Llywodraeth Cymru ddechrau paratoi'r rheoliadau angenrheidiol sy'n nodi sut y dylid mynd ati i baratoi'r CDS.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Datblygu ar rôl yr awdurdod cyfrifol, nad yw ond yn rôl weinyddol sy'n cefnogi gwaith y 10 awdurdod lleol, ac sy'n gweithredu fel unig bwynt cyswllt rhwng Llywodraeth Cymru a'r 10 o awdurdodau lleol. Byddai'r gwaith cefndirol, gan gynnwys yr holl waith technegol ac ymgynghori, ee, nodi ffin yr ardal cynllunio strategol, yn cael ei gyflawni drwy waith ar y cyd gan swyddogion o bob un o'r 10 Awdurdod Lleol. Rôl yr Awdurdod Cyfrifol fyddai cyflwyno'r cynnig yn ffurfiol ar ran yr holl ranbarth i Lywodraeth Cymru.

Dywedodd wrth y Cyngor fod y 10 awdurdod unedol wedi bod yn ystyried ffin yr Ardal Cynllunio Strategol, ac a ddylid cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi nodi ei fod yn cytuno â'r ymagwedd hon, ac nad yw'n dymuno bod yn rhan o'r Ardal Cynllunio Strategol, na chael ei gynnwys yn y CDS.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Datblygu ar y Panel Llywodraethu a Chynllunio Strategol. Mae'r model llywodraethu yn cynrychioli proses o drosglwyddo pwerau cynllunio

strategol o awdurdodau lleol i Banel Cynllunio Strategol. Nododd y dylid pwysoli pleidleisiau ar y PCS ar sail maint poblogaeth yr awdurdodau cyfansoddol, ac y dylid rhoi sylw i arwynebedd daearyddol yr awdurdod hefyd. Ni fyddai gan Ben-y-bont ar Ogwr ond 1 aelod ar y PCS, ond byddai gan yr unigolyn hwnnw 2 bleidlais. Byddai angen sicrhau cydbwysedd o ran y rhywiâu, gan sicrhau nad yw yr un rhyw i gyfrif am fwy na 60% o'r Panel, ac eithrio mewn sefyllfa lle bo gofynion cyfansoddiad yn amhosibl yn sgil y cyfansoddiad awdurdodau cynllunio lleol cyfansoddol. Tynnodd sylw hefyd at y broses o ymgysylltu â chynghorau cyfansoddol, hy, y ceir camau ymgynghori ffurfiol yn ychwanegol at ymglymiad anffurfiol parhaus drwy gydol y broses o baratoi'r CDS. Roedd hi'n debygol y byddai'r broses yn adlewyrchu'r broses ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Dywedodd y byddai rheolau sefydlog yn mynnu cworwm o 70% o aelodau sy'n pleidleisio ar y Panel, ac y byddai angen pleidlais gan fwyafrif o 70% ar gyfer penderfyniadau mewn cyfarfodydd â chworwm.

Adroddodd ar gynnig ar gyfer trefniadau llywodraethu dros dro cyn sefydlu'r PCS, ac y byddai pob Cyngor yn enwebu Aelod, yr Aelod Cabinet perthnasol yn ddelfrydol, i'w gynrychioli ar PCS, gydag awdurdod dirprwyol i wneud penderfyniadau cychwynnol ynghylch paratoi'r CDS. Amlinellodd gwmpas, cynnwys a chyfnod cynllun y CDS, gan nodi mai 2020-2040 fyddai cyfnod y cynllun. Amlinellodd yr adnoddau y byddai eu hangen o ran swyddfeydd a chyllid, gan amcangyfrif y byddai paratoi CDS gyda thîm dynodedig yn costio £3.14 miliwn dros 5 mlynedd. Byddai paratoi CDLlau unigol ar draws y rhanbarth rhwng £1.4 miliwn a £2.2 miliwn. Cynigiwyd rhannu'r gost o baratoi'r CDS ar draws y 10 awdurdod, a'r gost flynyddol i'r Cyngor fyddai £54,636, a chyfanswm y gost i'r Cyngor fyddai £273,180. Er mwyn symud ymlaen, dywedodd fod yn rhaid i bob un o'r 10 Cyngor gytuno i ddechrau i gychwyn paratoi CDS ar gyfer Prifddinas-ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys dechrau gwaith ar y sylfaen dystiolaeth cyn gynted ag sy'n bosibl, cyhoeddi Strategaeth a Ffafir yn 2022, Cynllun Adneuo yn 2023 ac Archwilio a Mabwysiadu yn 2024/25.

Cwestiynodd aelod o'r Cyngor bwysoliad y pleidleisiau a roddwyd i Sir Fynwy, sef 3 pleidlais, gan mai dyma yw un o'r awdurdodau lleiaf amddifadus, ac un o'r awdurdodau llai poblog. Dywedodd Rheolwr y Grŵp Datblygu wrth y Cyngor fod Sir Fynwy mewn lleoliad strategol, ac y rhagwelir y ceir pwysau i sicrhau twf yn y sir. Cadarnhaodd yr Arweinydd ei bod hi'n debygol y ceir pwysau sylweddol ar Sir Fynwy i ddatblygu, a nododd y byddai pob awdurdod yn cael ei gynrychioli ar y Panel gan un aelod, gyda gweledigaeth gyffredin ac uchelgeisiol ar gyfer y Rhanbarth.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

- (1) Yn cytuno ar gynnwys yr adroddiad a chytuno y dylid awdurdodi'r Awdurdod Cyfrifol i gyflwyno'r Cynnig am Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-ranbarth Caerdydd i'r Gweinidog ar ran y 10 Awdurdod Cynllunio Lleol yn y rhanbarth.
- (2) Yn cytuno mai Cyngor Bro Morgannwg a ddylai fod yn Awdurdod Cyfrifol ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol Prifddinas-ranbarth Caerdydd.
- (3) Yn cytuno y dylai'r Ardal Cynllunio Strategol gynnwys y 10 ardal Awdurdod Cynllunio Lleol ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd, fel y dangosir ar y map yn Atodiad A yr adroddiad.
- (4) Yn cytuno y dylai swyddogion perthnasol ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i ddrafftio Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Strategol, er mwyn sicrhau'r trefniadau llywodraethu a ganlyn ar gyfer y CDS a'r Panel Cynllunio Strategol:
 - (i) Y bydd y Panel Cynllunio Strategol yn cynnwys 10 Aelod, un o bob Awdurdod Lleol cyfansoddol, ac y dylai pwysoliad y

pleidleisiau ar gyfer pob Awdurdod Lleol cyfansoddol fod yn seiliedig ar boblogaeth ac arwynebedd daearyddol yr awdurdod hwnnw, fel a ganlyn:

Awdurdod Lleol	Nifer yr Aelodau ar y Panel Cynllunio Strategol	Pwysoliad y Bleidlais ar gyfer yr ALI Cyfansoddol
Blaenau Gwent	1	1
Pen-y-bont ar Ogwr	1	2
Caerffili	1	3
Caerdydd	1	5
Merthyr Tudful	1	1
Sir Fynwy	1	3
Casnewydd	1	2
Rhondda Cynon Taf	1	3
Torfaen	1	1
Bro Morgannwg	1	2
Cyfanswm	10	23
Aelodau Panel Enwebedig heb bleidlais	5	Amh.

- (ii) Y bydd y Cynghorau cyfansoddol yn cael eu cynnwys drwy broses ymgynghori flaenorol fel y nodir yn Ffigur 1 a bydd y Panel Cynllunio Strategol yn rhoi sylw llawn i sylwadau'r Cynghorau cyfansoddol;
- (iii) Y bydd angen cworwm o 70% o Aelodau a chanddynt bleidlais ar y Panel Cynllunio Strategol ar gyfer penderfyniadau a wneir gan y Panel ynghylch y Cynllun Datblygu Strategol, ac y bydd angen pleidlais gan fwyafrif o 70% mewn cyfarfod cworwm ar gyfer penderfyniadau.
- (5) Yn cytuno i sefydlu Panel Cynllunio Strategol Dros Dro cyn sefydlu'r Panel Cynllunio Strategol yn ffurfiol ac mai'r Aelod Cabinet Cymunedau a ddylai gael ei enwebu fel Aelod i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Cynllunio Strategol Dros Dro, ac y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig iddo wneud penderfyniadau cychwynnol ynghylch paratoi'r CDS (gyda phleidlais wedi'i phwysoli'n unol â'r tabl yn Argymhelliad 6(i)), ac wedi hynny ar y Panel Cynllunio Strategol.
- 6) Yn cytuno, os na fydd yr Aelod hwnnw yn gallu eistedd ar y Panel Cynllunio Strategol Dros Dro mwyach, y dylid rhoi pwerau dirprwyedig i'r Prif Weithredwr, ar ôl ymgynghori ag Arweinydd y Cyngor, i enwebu Aelod newydd i gynrychioli'r Cyngor ar y Panel Cynllunio Strategol Dros Dro a'r Panel Cynllunio Strategol.
- (7) Yn cytuno y dylid sefydlu Tîm Swyddogion Cynllun Datblygu Strategol Rhanbarthol i fynd rhagddo i baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol i'w benodi, ac y dylai cynrychiolwyr o'r Panel Cynllunio Strategol Dros Dro benodi aelodau i'r Tîm hwnnw, gyda chefnogaeth adnoddau dynol briodol gan yr Awdurdod Cyfrifol.
- (8) Yn cytuno y dylid rhannu'r gost o baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ar draws y 10 Awdurdod yn ôl cost gyfrannol, ar sail nifer y pleidleisiau cynrychioliadol ar y Panel Cynllunio Strategol, a adolygir yn flynyddol, ac y dylid talu cyfraniad cychwynnol o £50,005 i dalu'r costau cychwynnol sy'n debygol o gael eu hachosi yn y flwyddyn

ariannol hon 2019/20, fel y dangosir uchod, oni cheir cyllid o Ffynonellau Llywodraeth Cymru.

363. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018-19

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro Adroddiad Blynyddol 2018-19 y Cyngor. Roedd y Cynllun yn diffinio 40 ymrwymiadu er mwyn cyflawni'r tri amcan lles ac yn nodi 58 o ddangosyddion a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Dywedodd fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn nodi sut y byddai'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau i gefnogi cyflawni'r amcanion lles a'r dyletswyddau statudol, gan gynnwys rheoli pwysau a risgiau ariannol dros y pedair blynedd nesaf.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 fod yr adroddiad Blynyddol yn gwerthuso'r graddau y llwyddodd y Cyngor i gyflawni ei ymrwymiadu a'r canlyniadau a gynlluniwyd ganddo ar gyfer y flwyddyn ariannol, gan ddefnyddio ei fesuriadau o lwyddiant a thystiolaeth arall. Ar y cyfan, dywedodd fod y Cyngor wedi perfformio'n dda yn 2018-19, ac o'r 40 o ymrwymiadu, llwyddwyd i gwblhau 35 ohonynt yn llwyddiannus, a chyrraedd cerrig milltir y rhan fwyaf o'r 5 a oedd yn weddill. Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro wrth y Cyngor fod y Cynllun Corfforaethol wedi nodi 58 o ddangosyddion i fesur llwyddiant, a bod 37 o ddangosyddion yn unol â'r targed, 9 yn llai na 10% oddi wrth y targed, a 10 dros 10% oddi wrth y targed. Dywedodd nad yw'r data ar gyfer yr holl ddangosyddion ar gael, ac felly na ellir cymharu perfformiad y Cyngor â'r perfformiad cenedlaethol. Yn yr adran 'Sut ydyn ni'n cymharu?', dangosir perfformiad mewn dangosyddion a gyhoeddwyd hyd yma, ac sydd ar gael ar wefan 'Mylocalcouncil'.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor faint o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor ac mewn ysgolion. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod 3,000 o aelodau staff yn cael eu cyflogi mewn ysgolion. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor fod gan y Cyngor 5,800 o gyflogeion.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor a ellid gosod targed mwy heriol ar gyfer defnyddio eiddo gwag o'r newydd. Dywedodd yr aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol y byddai'n darparu'r wybodaeth am y targed ar gyfer defnyddio eiddo gwag o'r newydd wedi i'r Swyddog Eiddo gwag gael ei benodi.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2018-19.

364. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I STRWYTHUR RHEOLI'R JNC

Gofynnodd y Prif Weithredwr am gymeradwyaeth i ddiwygio strwythur yr uwch reolwyr ac i gychwyn ymgynghoriad ffurfiol â swyddogion perthnasol y JNC ynghylch y strwythur a gynigir.

Hysbysodd y Cyngor fod strwythur cyflogau a graddfeydd newydd wedi cael ei gymeradwyo ym mis Tachwedd 2017, lle ychwanegwyd haenau ychwanegol at y raddfa gyflogau bresennol, i greu mwy o hyblygrwydd o fewn y strwythur. Gwnaed hyn er mwyn ymateb i heriau'r dyfodol, ac fel bod y Cyngor yn gallu ymateb yn well i rymoedd y farchnad a gwella cyfraddau recriwtio a chadw. Ym mis Chwefror 2018, cymeradwyodd y Cyngor sawl newid i strwythur uwch reoli'r JNC. Roedd hyn yn cynnwys dileu'r Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol, cael gwared â swydd Pennaeth Gwasanaeth yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a dileu swydd flaenorol y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn y Gyfarwyddiaeth Weithredol a Phartneriaethau. Canlyniad y newidiadau oedd diwygio'r strwythur rheoli yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a chreu Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr.

Adroddodd y Prif Weithredwr y cafwyd newidiadau pellach i'r uwch dîm rheoli, gydag ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol ym mis Rhagfyr 2018, a phenodiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau blaenorol i swydd y Prif Weithredwr ym mis Ionawr 2019, dros dro i ddechrau ac wedyn yn barhaol ym mis Mai 2019. Dywedodd fod hyn wedi golygu mai dros dro yn bennaf oedd y trefniadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwn er mwyn rheoli'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau ac ar gyfer y Pennaeth Cyllid a Pherfformiad (a Swyddog Adran 151). Drwy'r trefniadau dros dro llwyddwyd i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gael eu cynnal yn foddhaol dros y cyfnod hwn, ond roedd hi'n glir nad oedd y trefniadau hynny'n gynaliadwy dros y tymor hir, a bod angen trefniadau parhaol i sicrhau bod gan y Cyngor y capasiti a'r gwytnwch i ymateb i'r heriau niferus o'i flaen yn y dyfodol. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys gostyngiadau mawr i'r gyllideb ac agenda o newid sylweddol er mwyn helpu i sicrhau bod modd cynnal gwasanaethau cyhoeddus a'u bod yn addas i'r diben. Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, dywedodd wrth y Cyngor y byddai proses yn cael ei chynnal yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd) i benodi i swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Adroddodd am gynnig y dylid ailddynodi swydd gyfredol y Pennaeth Cyllid a Pherfformiad (a swyddog adran 151), sydd yn wag ar hyn o bryd, yn Brif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid. Byddai deilydd y swydd yn dal i adrodd yn uniongyrchol wrth y Prif Weithredwr yn rhan o Gyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr ac yn ysgwyddo cyfrifoldeb ychwanegol i alinio adnoddau ariannol y Cyngor a'i rhaglen newid corfforaethol. Dywedodd ei bod hi'n ymrwymiad statudol i'r Cyngor enwebu Swyddog Adran 151, a'i bod yn hanfodol penodi unigolyn i'r swydd. Hysbysodd y Cyngor am y cynnig y dylid defnyddio'r ystod cyflog £91,121 i £97,469 ar gyfer rôl y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid. Byddai'r rôl yn cynnwys cyfrifoldeb dros y Pennaeth Partneriaethau cyfredol, sy'n cynnwys TG, trawsnewid digidol, rheoli rhaglenni a gwasanaethau cwsmer.

Yn dilyn adolygiad o Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadol, adroddodd hefyd am gynnig y dylai'r gwasanaeth hwnnw adrodd wrth y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, ac y dylai'r swydd honno gael ei hailddynodi'n Brif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio. Nid oedd unrhyw newid i raddfa'r swydd hon, a byddai'n parhau i adrodd yn uniongyrchol wrth y Prif Weithredwr yn rhan o Gyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr. Yn unol ag adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Gynghorau ofyn barn Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch newidiadau i gyflogau prif swyddogion. Bydd y Panel hwnnw yn ystyried y cynigion yn ei gyfarfod nesaf ar 25 Hydref 2019.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

- 1) Yn cymeradwyo'r cynnig i ailddynodi'r Pennaeth Cyllid a Pherfformiad presennol yn Brif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid;
- 2) Awdurdodi'r Prif Weithredwr i gychwyn ymgynghoriad ffurfiol â swyddogion JNC perthnasol yng Nghyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr;
- 3) Awdurdodi'r Prif Weithredwr i bennu'r strwythur terfynol ac i benodi unigolion i'r strwythur hwnnw yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer recriwtio Swyddogion JNC.

365. Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLEN GYFALAF - CHWARTER 2 2019-20

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro adroddiad i gydymffurfio â gofyniad Cod Cyllid Cyfalaf Darbodus 2018 y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a

Chyfrifyddiaeth; rhoddodd y newyddion diweddaraf am Raglen Gyfalaf 2019-20 ar 30 Medi 2019; gofynnodd am gymeradwyaeth ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer *** yfer 2019-20 hyd 2028-29, ac i'r Cyngor nodi'r Dangosyddion Darbodus a'r Dangosyddion Eraill a ragamcanwyd ar gyfer 2019-20.

